# Cofnodion cryno - Bwrdd Taliadau

Lleoliad:

**Rhithwir - Digidol**

Dyddiad: Dydd Iau, 2 Mawrth 2023

Amser: 9.30 – 11.45

# IRB(02-23)

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd | Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd);<br>David Hanson;<br>Michael Redhouse;<br>Jane Roberts;<br>Hugh Widdis. |
| Ysgrifenyddiaeth: | Huw Gapper, Clerc;<br>Martha Da Gama Howells, Ail Glerc;<br>Angharad Coupar, Dirprwy Glerc;<br>Anna Daniel, Uwch-gynghorydd i'r Bwrdd;<br>David Lakin, Cefnogaeth i'r Bwrdd;<br>Kate Rabaiotti, Cynghorydd Cyfreithiol i'r Bwrdd;<br>Bethan Davies, Pennaeth Cefnogaeth ac Ymgysylltu â'r Aelodau;<br>Martin Jennings, Arweinydd Tîm Ymchwil, Uned Craffu Ariannol; |
| Cyfranogwyr: | Lisa Bowkett, Pennaeth Cyllid |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd (9.30 - 9.35)

- Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.
- Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf am ddyddiad posibl ar gyfer cyfarfod rhwng y cyrff sy'n gyfrifol am bennu tâl yr Aelodau ar gyfer pedair deddfwrfa'r DU. Dywedodd pob aelod o'r Bwrdd, ac eithrio un, y byddent ar gael i ddod i'r cyfarfod hwn.

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

- Dywedodd y Cadeirydd fod llythyr wedi'i anfon at y Bwrdd Pensiynau i geisio'i farn am newidiadau posibl i Reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau, i sicrhau na fydd cyfraniadau a buddion pensiwn yr Aelodau yn gostwng os byddant yn prynu car drwy Gynllun Aberthu Cyflog Cerbydau Trydan y Comisiwn.
- Cafodd aelodau'r Bwrdd eu hatgoffa hefyd fod angen adolygiad cyffredinol o'r Rheolau i sicrhau eu bod yn gyfredol, er enghraifft i sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn niwtral o ran rhywedd. Cytunodd y Bwrdd y dylid cynnal yr adolygiad hwn ar yr un pryd ag y caiff y Rheolau eu hadolygu mewn perthynas â'r Cynllun Cerbydau Trydan.
- Clywodd y Bwrdd y bydd angen newid Rheolau'r Cynllun Pensiwn hefyd, o bosibl, mewn perthynas ag ymddeol yn hwyr. Bydd y Bwrdd Pensiynau'n rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd yn y cyswllt hwn.
- Cytunodd y Bwrdd mewn egwyddor i roi cyfarwyddyd i'r Cyfreithwyr Allanol, Eversheds, wneud y newidiadau perthnasol i Reolau'r Cynllun Pensiwn, gan ddibynnu ar y gost a chyhyd ag y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Cytunodd y Bwrdd i ddirprwyo'r cyfrifoldeb am gytuno ar y newidiadau perthnasol i Reolau'r Cynllun Pensiwn i Mike Redhouse (sef yr aelod arweiniol ar faterion pensiwn) a'r Cadeirydd.
- Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror.

## 2 Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer 2023-24 - Trafodaeth gychwynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (09.35 - 11.00)

- Trafododd y Bwrdd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch yr Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad, i lywio penderfyniadau ynghylch y Penderfyniad ar gyfer 2023/23 a gaiff eu gwneud yng nghyfarfod y Bwrdd ar 16 Mawrth.

## 3 Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer 2023-24 - Trafodaeth gychwynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (11.15 - 12.00)

## 4 Gohebiaeth i'w nodi (12.15 - 12.30)

- Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd yn ddiweddar gan Brif Weithredwr Comisiwn y Senedd a chan y Llywydd.